***Sylwer:*** *Ni allwch arbed y dulliau meddwl wedi'u cwblhau fel ffeil. Fodd bynnag gellir eu hargraffu ar bapur neu eu 'hargraffu' ac yna eu cadw fel PDF i'w ddefnyddio yn y dyfodol.*

# Fframiau Myfyrio

- Mae'r rhain yn rhoi dechrau brawddegau ar gyfer myfyrwyr sy'n ymateb i gynnwys fel clipiau fideo, lluniau neu erthyglau.
- Y bwriad yw y byddant yn gwella'r dyfnder yn yr ymatebion mae myfyrwyr yn eu rhoi yn hytrach na rhoi ymatebion cyfyngedig i gwestiynau fel 'beth yw eich barn am hynny?' neu 'a oes gennych unrhyw gwestiynau?'
- Mae myfyrwyr yn edrych ar y cynnwys ac yna'n cwblhau'r brawddegau i roi eu hymatebion.

# 3-2-1

- Yn yr un ffordd a'r fframiau myfyrio, mae hwn wedi'i gynllunio i strwythuro a datblygu ymatebion myfyrwyr i gynnwys fel clipiau fideo, delweddau neu erthyglau.
- Mae myfyrwyr yn cwblhau pob adran fel yr awgrymwyd, naill ai yn y dosbarth neu gartref fel gweithgaredd dysgu gwrthdro. Gellid defnyddio'r cwestiynau sydd ganddynt fel sail ar gyfer trafodaeth dosbarth ac i helpu i ymdrin ag unrhyw gamsyniadau o'r deunydd.

# Arllwys drwy dwmffat

- Cynlluniwyd y gweithgaredd hwn i helpu myfyrwyr grynhoi gwybodaeth a dethol y pwyntiau pwysig o ddeunydd ysgogi fel dyfyniad o lyfr neu erthygl.
- Dylai myfyrwyr ddarllen y cynnwys ac yna ddewis 15-20 gair neu ymadrodd i'w rhoi ar dop y twmffat.
- Gallan nhw wedyn lusgo a gollwng y 5-7 gair neu ymadrodd byr maen nhw'n ei ystyried fwyaf pwysig i waelod y twmffat.
- Gall y geiriau neu'r ymadroddion hyn gael eu defnyddio wedyn fel sail ar gyfer ysgrifennu'r crynodeb o'r cynnwys yn y blwch ar y gwaelod.

# 66 gair

- Fel y gweithgaredd arllwys drwy dwmffat, mae'r dull hwn yn helpu myfyrwyr i grynhoi gwybodaeth a dethol y pwyntiau pwysig o wersi neu ddeunydd ysgogi fel dyfyniad o lyfr neu erthygl.
- Mae angen iddyn nhw ysgrifennu un gair ym mhob blwch (gan gynnwys unrhyw briflythrennau ac atalnodi angenrheidiol) i greu brawddegau llawn fyddai'n crynhoi'r wybodaeth ofynnol.
- Mae clicio ar 'cyflwyno' yn creu'r paragraff llawn ar y gwaelod, sy'n gallu cael ei ddefnyddio wedyn ar gyfer adolygu neu fel nodiadau.

# Dull Holi ac Ateb

- Mae'r dull hwn yn helpu myfyrwyr i drefnu cwestiynau ac atebion am destun penodol, ac yn gallu eu hannog nhw i ddarllen yn ehangach i ateb y cwestiynau.
- Mae'r testun yn cael ei roi yn y blwch canol ac mae'r cwestiynau'n cael eu hysgrifennu o amgylch y tu allan, ynghyd ag ymatebion.
- Gall y cwestiynau sy'n cael eu dewis fod yn rai wedi'u harwain gan yr athro neu'r myfyriwr, a gall y gweithgaredd gael ei gwblhau yn unigol neu mewn grwpiau.

# Map Gwerthuso Cysyniad

- Mae'r dull hwn yn helpu myfyrwyr i strwythuro gwerthusiad a phwyso a mesur dadleuon o blaid ac yn erbyn gosodiad.
- Yn y blwch 'hawliad sydd wedi cael ei wneud', mae myfyrwyr yn rhoi gosodiad cyffredinol neu fater i'w werthuso.
- Y lefel nesaf o ymateb yw ysgrifennu dadleuon posibl o blaid ac yn erbyn yr hawliad ('rhesymau dros wneud yr hawliad' a 'gwrthwynebiadau i'r hawliad').
- Yn y blychau nesaf, dylid rhoi tystiolaeth ar gyfer dwy ochr y ddadl ('tystiolaeth o blaid yr hawliad', 'tystiolaeth yn erbyn yr hawliad').
- Bydd y broses hon yn helpu myfyrwyr i lunio barn ynghylch cryfder cyffredinol pob ochr i'r ddadl yn y blychau nesaf ('cefnogaeth gyffredinol o blaid hawliad', 'cefnogaeth gyffredinol o blaid gwrthwynebiadau').
- Gallan nhw dynnu casgliad cyffredinol ynghylch pa mor dda mae'r hawliad a gafodd ei wneud ar y dechrau wedi'i gefnogi ('gwerthusiad cyffredinol').
- Byddai modd defnyddio hwn wedyn i strwythuro paragraff gwerthuso ar y testun sy'n cael ei drafod.